**RHESTR TESTUNAU**

**YR ADRAN LENYDDOL**

**EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES PANTYFEDWEN**

**LLANBEDR PONT STEFFAN, AWST 27 – 29 2016**

Traddodir y beirniadaethau yn y Babell Lên yn Festri Shiloh am 7.00 o'r gloch, nos Lun, 29 Awst, heblaw am gystadlaethau rhif 1, 2, 3, 4 a 5 a draddodir oddi ar lwyfan yr Eisteddfod.

**Beirniaid**: Y Prifardd Robat Powell, Y Prifardd Emyr Lewis

**1. Cystadleuaeth y Gadair**.
Englyn yr un i unrhyw saith dynes
Gwobr: Cadair Fechan a £200

**2. Cystadleuaeth y Goron**.
Cerdd neu ddilyniant o gerddi yn y mesur rhydd (dim mwy na 100 llinell). Testun: 'Ffenestr' neu 'Ffenestri'
Gwobr: Coron a £200

**3. Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith**.
Dau ddarn o ryddiaith mewn ffurfiau gwahanol ar y thema 'Cylch' neu 'Cylchoedd'
(y cyfanswm heb fod yn fwy na 4000 o eiriau)
Gwobr: Y Fedal a £200.

**4. Cystadleuaeth y Gadair i rai dan 25 oed**.
Cerdd ar y testun 'Storm'
Gwobr: Cadair Arian Fechan (Sialens) i goffáu'r Bardd Carellio, £150 ynghyd â Thlws Coffa Aneurin i'w gadw.

**5. Tlws Rhyddiaith Ieuenctid i rai dan 25 oed**.
Darn o ryddiaith ar y thema 'Caethiwed'
Gwobr: Tlws Ieuenctid a £150

**6. Englyn.** Testun 'Clustog'
Gwobr: 1. £50 2. £30 3. £15 (Gwobr Goffa'r Capten Jac Alun Jones).

**7. Telyneg ar fydr ac odl.** Testun**:** 'Mynydd'
Gwobr: 1. £50 2. £30 3. £15

**8. Cerdd yn y Wers Rydd**. Testun: 'Rebel'
Gwobr: 1. £50 2. £30 3. £15

**9. Cywydd.** Testun: 'Cywydd coffa i berson a fu farw yn 2016'
Gwobr: 1. £50 2. £30 3. £15 (Gwobr Goffa Edwin Jones).

**10. Darn o ryddiaith**: Erthygl am 'Y pethau sy'n fy ngwylltio!' (dim mwy na 1500 o eiriau)
Gwobr: 1. £50 2. £30 3. £15

**11. Saith triban neu saith pennill telyn.** Testun: 'Rhybuddion'
Gwobr: 1. £50 2. £30 3. £15

**12. Cystadleuaeth i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.** Stori am anifail dewr
Gwobr: 1. £30 2. £20 3. £10

**13. Cyfansoddi Tôn i Emyn Buddugol 2015. Gwobr: £100**

'ESTYN LLAW' gan Dai Rees Davies, Rhydlewis

1.Dy weld ar fur y festri
Yw'r darlun gorau oll,
A thithau'n cyfri'r defaid
Gan weld bod un ar goll,
Ond nid oedd hyn yn codi braw
Am fod ffon fugail yn Dy law.

2. Pan grwydrais ar gyfeiliorn
A hynny lawer gwaith
Wrth groesi'r corsydd dyfnion
Nas gwelir ar y daith,
Estynnaist law i'm harwain i
Yn ôl i'th lwybr cadarn Di.

3. Pan fydd fy haul yn suddo
Dros orwel pell y tir
A'm gobaith yn diflannu
Ar ddiwedd diwrnod hir,
Rwy'n gofyn Iti estyn llaw
I'm tywys tua'r ochor draw.

**14. Talwrn y Beirdd**.
Disgwylir i'r tîmau gofrestru erbyn **dydd Gwener 12 Awst 2016**. Dim llai na 3 aelod ym mhob tîm.
Gwobrau: 1af £150 a Tharian Sialens Goffa Jim Evans; Ail £100; 3ydd £50
(Rhoddir £20 i bob tîm arall sydd yn cystadlu)
I gofrestru, cysylltwch ag ysgrifennydd y Pwyllgor Llenyddiaeth, Gillian Jones: 01570 480 424 neu gillianj249@gmail.com

*******************

Rhaid i bob cynnig llenyddol fod yn llaw'r Pwyllgor Llên erbyn **dydd Gwener 12 Awst 2016.**
Er tegwch i'r beirniaid ni dderbynnir cynigion ar ôl y dyddiad hwn ac ni dderbynnir cynigion drwy e-bost.

**Danfoner pob cais, ynghyd â ffugenw ac amlen sydd yn cynnwys eich enw, eich e-bost (os oes un gennych) a'ch cyfeiriad a rhif ffôn**, at:

Y Pwyllgor Llenyddiaeth
Eisteddfod Rhys Thomas James
Y Garn
Cwm-ann
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 8EL
Cadeirydd y Pwyllgor Llên: Elin Williams 01570 423 145 elinygarn@hotmail.com
Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên: Gillian Jones 01570 480 424 gillianj249@gmail.com

*Byddwn yn danfon eich beirniadaeth ar e-bost oni nodwch yn wahanol. Os ydych yn dymuno derbyn beirniadaeth ysgrifenedig drwy'r post, dylid nodi hynny wrth gystadlu a chynnwys amlen wedi ei stampio.*